WCISPC(6)-04-24-P3-Briffio Ymchwil

**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Senedd Research**

# Ymchwiliad Covid-19 y DU: Adroddiad monitro 3

Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 | 19 Mawrth 2024
Wales COVID-19 Inquiry Special Purpose Committee | 19 March 2024


## Cyflwyniad

Ar 16 Mai 2023, pleidleisiodd y Senedd dros greu Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru. Mae'r papur briffio hwn yn rhoi **diweddariad** i Aelodau'r Pwyllgor Diben Arbennig ar waith Ymchwiliad Covid-19 y DU hyd yma. Mae'n nodi bod **cynnydd wedi'i wneud ar amrywiol fodiwlau** o'r Ymchwiliad. Disgwylir cyhoeddi adroddiad Modiwl 1 ar wydnwch a pharodrwydd ddechrau haf 2024.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Diben Arbennig, fel y'i cytunwyd gan Aelodau o'r Senedd, yn golygu na all ymgymryd â gwaith sylweddol tan y cyhoeddir "**adroddiadau yn y camau unigol o Ymchwiliad Covid-19 y DU**".

**D.S.** Nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â Modiwl 1 gan ei fod eisoes wedi cael sylw mewn adroddiad monitro blaenorol (gweler **Ymchwiliad Covid-19 y DU: Adroddiad Monitro 2 Ymchwil y Senedd - Modiwl 1**).

### Ffigur 1: Ymchwiliad Covid-19 y DU - Modiwlau Gweithredol




Mae **Modiwlau'r Dyfodol** wedi'u cyhoeddi fel rhai sy'n cwmpasu'r canlynol:

- Profi ac olrhain
- Ymateb busnes ac ariannol
- Anghydraddoldebau iechyd
- Addysg, plant a phobl ifanc
- Gwasanaethau cyhoeddus eraill

---

**D.S.** *Mae'n bwysig nodi wrth ddarllen yr wybodaeth isod mai dim ond Cyfranogwyr Craidd all gymryd rhan yn y gwrandawiadau rhagarweiniol.*

# Modiwl 2 – Gwneud penderfyniadau craidd y DU; llywodraethu gwleidyddol

**Agorodd Modiwl 2 (Gwneud penderfyniadau craidd y DU; llywodraethu gwleidyddol) ar 31 Awst 2022** ac mae wedi'i rannu'n bedair rhan. Mae **rhestr o gyfranogwyr craidd** wedi'i chyhoeddi. Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth ar Fodiwl 2 gan gyfranogwyr y DU rhwng 2 Hydref 2023 ac 14 Rhagfyr 2023 (gweler **Amserlen gwrandawiadau cyhoeddus Modiwl 2**). Mae Modiwl 2A yn cwmpasu'r Alban, mae Modiwl 2B yn canolbwyntio'n benodol ar Gymru ac mae Modiwl 2C yn edrych ar Ogledd Iwerddon.

## Modiwl 2

Mae Modiwl 2B yn gyfle i gael cipolwg ar y **strwythurau gweinyddol a llywodraethu gwleidyddol craidd** a ddylanwadodd ar benderfyniadau yn ystod y pandemig. Bydd yn craffu ar effeithiolrwydd Llywodraeth y DU wrth wneud penderfyniadau, perfformiad endidau gwleidyddol a'r gwasanaeth sifil a natur y cysylltiadau rhwng Llywodraeth y DU, gweinyddiaethau datganoledig, a sectorau lleol a gwirfoddol.

Bydd yr ymchwiliad yn asesu'r **ymateb cychwynnol** i'r pandemig, gan daflu goleuni ar y strategaethau a ddefnyddiwyd gan awdurdodau i liniaru ei effaith. Bydd yn archwilio prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch **mesurau anfferyllol** (h.y. ymyriadau iechyd y cyhoedd a oedd â'r nod o reoli lledaeniad Covid-19 nad ydynt yn cynnwys y defnydd o gynhyrchion fferyllol na brechlynnau, megis cadw pellter cymdeithasol, gwisgo masgiau, hylendid dwylo, cwarantin, ynysu, cyfyngiadau teithio a chyfyngiadau symud).

Mae **meysydd archwilio allweddol** eraill yn cynnwys mynediad at arbenigedd meddygol a gwyddonol, cyfathrebiadau iechyd y cyhoedd, deddfu a gorfodi deddfwriaeth a rheoliadau coronafeirws ac effaith cyllid ar brosesau gwneud penderfyniadau.

Ceir manylion pellach yn yr **amlinelliad amodol o'r cwmpas**.

## Modiwl 2B Cymru

Mae **Modiwl 2B** yn canolbwyntio'n benodol ar y persbectif Cymreig. **Cynhaliwyd gwrandawiadau cyhoeddus yng Nghaerdydd** rhwng 27 Chwefror a 14 Mawrth, gan roi cyfle i randdeiliaid o Gymru leisio eu profiadau a'u pryderon.

Bydd adroddiad monitro nesaf y Gwasanaeth Ymchwil yn canolbwyntio'n benodol ar Fodiwl 2/2B, felly nid yw wedi'i drafod yma.

**Darllen Pellach**:

**Proses Gwneud Penderfyniadau a Llywodraethu Gwleidyddol Craidd y DU (Modiwl 2) – Gwrandawiadau Rhagarweiniol**

**Gwneud penderfyniadau craidd y DU a llywodraethu gwleidyddol – Cymru (Modiwl 2B) – Gwrandawiadau Rhagarweiniol**

# Modiwl 3 - Effaith pandemig Covid-19 ar systemau gofal iechyd ym mhedair gwlad y DU

**Agorodd Modiwl 3 (Effaith pandemig Covid-19 ar systemau gofal iechyd ym mhedair gwlad y DU) ar 8 Tachwedd 2022.** Mae'r broses ymgeisio i ddod yn Gyfranogwr Craidd bellach wedi cau. Mae rhestr o gyfranogwyr craidd wedi'i chyhoeddi. Mae cynrychiolwyr Cymru yn cynnwys: Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru, Llywodraeth Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Grŵp o Gyrff GIG Cymru. (Gwrthodwyd cais am statws Cyfranogwr Craidd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru).

Cynhelir gwrandawiadau cyhoeddus Modiwl 3 am 10 wythnos rhwng 9 Medi a 10 Hydref 2024 a rhwng 28 Hydref a 28 Tachwedd 2024.

Bydd Modiwl 3 yn dadansoddi **effeithiau'r pandemig Covid-19 ar systemau gofal iechyd** ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd yn archwilio **canlyniadau** ymatebion y llywodraeth a'r cyhoedd i'r pandemig ar ofal iechyd, gan asesu capasiti systemau gofal iechyd i ymdrin â phandemig a sut yr esblygodd y capasiti hwn yn ystod yr argyfwng Covid-19.

Bydd y Modiwl yn cwmpasu **llywodraethu gofal iechyd**, **gofal sylfaenol**, **ôl-groniadau'r GIG**, effeithiau rhaglenni brechu ar **ddarpariaeth gofal iechyd**, yn ogystal â diagnosis a chymorth ar gyfer **covid hir**. Bydd hefyd yn archwilio **anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd** (megis mewn perthynas â chyfraddau marwolaethau, PPE ac ocsifesuryddion), a fydd yn cael eu hystyried yn fanwl ymhellach mewn modiwl dynodedig ar wahân.

Yn benodol, bydd y modiwl yn:

- Archwilio gwahanol agweddau ar **ddarpariaeth gofal iechyd**, gan gynnwys y sectorau sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, yn ogystal â phrofiadau pobl o ofal iechyd yn ystod y pandemig.
- **Gwneud penderfyniadau ac arweinyddiaeth** mewn systemau gofal iechyd.
- Lefelau staffio a **chapasiti** gofal critigol, sefydlu ysbytai maes a'r defnydd ohonynt a'r defnydd o ysbytai preifat.
- **Gwasanaethau brys** a chydweithredu traws-adrannol rhwng gwasanaethau.
- **Triniaeth** ar gyfer cleifion Covid-19, treialon clinigol ac ymchwil.

- **Darpariaeth** iechyd gan gynnwys dyraniad staff ac adnoddau, oedi cyn cael triniaeth ar gyfer y rhai sydd angen gofal am resymau heblaw Covid-19, rhestrau aros, protocolau rhyddhau o'r ysbyty a gofal lliniarol.

- Gwneud penderfyniadau am **uwchgyfeirio gofal iechyd**, gan gynnwys y defnydd o gyfarwyddiadau na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPRs).

- Yr effaith ar **staff gofal iechyd**, gan gynnwys grwpiau penodol fel y rhai o gefndiroedd ethnig.

- **Atal lledaeniad** Covid-19 mewn lleoliadau gofal iechyd, gan gynnwys mesurau rheoli heintiau, digonolrwydd PPE, cyfathrebu â chleifion a'u teuluoedd, dosbarthu a chofnodi marwolaethau, mesurau gwarchod.

Ceir manylion pellach yn yr **amlinelliad dros dro o'r cwmpas**.

## Gwrandawiad cyhoeddus rhagarweiniol

Cynhaliodd yr Ymchwiliad y **gwrandawiad rhagarweiniol cyntaf ar gyfer Modiwl 3** ar **28 Chwefror 2023**. Cynhaliwyd **ail wrandawiad rhagarweiniol** ar **27 Medi 2023**. Mae'r gwrandawiad rhagarweiniol terfynol wedi'i drefnu ar gyfer **10 Ebrill 2024**. Cyhoeddodd y Cadeirydd ei **Dyfarniad yn dilyn y Gwrandawiad Rhagarweiniol Modiwl 3 Cyntaf** ar 9 Mawrth 2023 a'i **Dyfarniad yn dilyn yr Ail Wrandawiad Rhagarweiniol Modiwl 3** ar 9 Hydref 2023.

**Yn y gwrandawiad rhagarweiniol cyntaf**, tynnodd Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru sylw at y strwythur gwneud penderfyniadau a gofal iechyd gwahanol yng Nghymru a galwodd am i **Fodiwl 3 gael ei rannu** (h.y. felly yn ogystal â Modiwl 3, bod Modiwlau 3A, 3B, 3C yn edrych ar y systemau gofal iechyd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn y drefn honno). Tynnodd cynrychiolwyr y grŵp o gyrff GIG Cymru sylw hefyd at y gwahaniaethau strwythurol rhwng y GIG yng Nghymru a Lloegr, gan bwysleisio'r ffaith bod gan Fyrddau Iechyd Cymru **rôl ddeuol fel comisiynydd a darparwr gwasanaethau**.

Dadleuodd tîm Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 fod y cwmpas a amlinellir **yn ddigon** i ystyried unrhyw wahaniaethau strwythurol yn y ffordd y mae system gofal iechyd pob gwlad wedi'i sefydlu heb fod angen gwrandawiadau unigol.

Tynnodd Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru sylw at **bryderon penodol** y maent am eu gweld yn cael eu harchwilio fel **llinellau ymholi penodol** ym Modiwl 3, gan gynnwys Covid-19 a gafwyd yn yr ysbyty, adnoddau gofal iechyd, mesurau rheoli heintiau, ac adnoddau ar gyfer argaeledd PPE. Maent hefyd am i'r Modiwl ganolbwyntio ar brofi, gwahanu mewn ysbytai a gofal diwedd oes.

**Yn yr ail wrandawiad rhagarweiniol**, codwyd y mater o gadw negeseuon e-bost. Ym mis Chwefror 2023, canfu **Gofal Iechyd Digidol Cymru (DHCW)** fod negeseuon e-bost a chynnwys cysylltiedig ar gyfer unigolion a adawodd sefydliadau'r GIG yng Nghymru, neu a symudodd rhwng y sefydliadau hynny, wedi'u dileu o wasanaeth e-bost Microsoft 365 GIG Cymru (roedd gan ddau fwrdd iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, systemau wrth gefn ar wahân ar gyfer cyfrifon staff, ac ni chawsant eu heffeithio).

Pwysleisiodd Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru fod nifer sylweddol o berthnasau aelodau'r grŵp wedi marw oherwydd **Covid a gafwyd yn yr ysbyty**, ac felly eu bod eisiau deall effaith y pandemig ar systemau

gofal iechyd yng Nghymru. Gwnaeth y grŵp y pwynt bod angen i'r Ymchwiliad alw **tystion arbenigol sydd ag arbenigedd a phrofiad digonol yng Nghymru** i ddarparu tystiolaeth benodol. Mae'r grŵp yn gofyn am ddadansoddiad o ddata Cymru a chraffu ar sefyllfa Cymru.

**Cyflwyniadau ysgrifenedig**:

**Cyflwyniadau gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 12 Medi 2023 - Ymchwiliad Covid-19 y DU**

**Cyflwyniadau gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, dyddiedig 12 Medi 2023 - Ymchwiliad Covid-19 y DU**

**Cyflwyniadau gan Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru, dyddiedig 11 Medi 2023 - Ymchwiliad Covid-19 y DU**

**Cyflwyniadau gan Grŵp o Gyrff GIG Cymru, dyddiedig 11 Medi 2023 - Ymchwiliad Covid-19 y DU**

**Darllen Pellach:**

Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru, **Crynodeb Cyflym o Dystiolaeth** (Mehefin 2021)

# Modiwl 4 - Brechlynnau a therapiwteg

**Agorodd Modiwl 4 (Brechlynnau a therapiwteg) ym mis Medi 2023.** Mae'r broses ymgeisio i ddod yn Gyfranogwr Craidd ar gyfer Modiwl 4 bellach wedi cau. Mae **rhestr o gyfranogwyr craidd** wedi'i chyhoeddi. Mae cynrychiolwyr Cymru yn cynnwys: Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru, Anabledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Bwriedir i'r Ymchwiliad glywed tystiolaeth ar gyfer y Modiwl hwn o 14 Ionawr 2025.

Bydd Modiwl 4 yn ymdrin â **datblygu** brechlynnau Covid-19 **a gweithredu** rhaglenni brechu ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd hefyd yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â **thriniaeth Covid-19**, gan ddefnyddio meddyginiaethau sefydledig a rhai sydd wedi'u datblygu o'r newydd. Nod y modiwl yw cael darlun o brofiadau blaenorol a gwella parodrwydd ar gyfer unrhyw bandemig yn y dyfodol. Yn benodol, bydd y modiwl yn cwmpasu'r canlynol:

- Y broses gyfan o **ddatblygu, caffael, cynhyrchu a chymeradwyo brechlynnau** yn ystod y pandemig, gan gynnwys arferion arloesol.
- Effeithiolrwydd y broses o wneud penderfyniadau ledled y DU, yn enwedig rôl **Tasglu Brechlyn y DU**.
- Y camau datblygu, treialu a rheoleiddio a gymerwyd i hwyluso'r defnydd o **therapiwteg newydd** a meddyginiaethau wedi'u hailbwrpasu yn ystod y pandemig.

- **Strategaethau cyflwyno brechlynnau** ar draws y pedair gwlad, gan gynnwys trefniadau ar lawr gwlad, strategaethau cyfathrebu â'r cyhoedd a'r ystyriaethau moesegol sy'n ymwneud â chymhwystra a phenderfyniadau blaenoriaethu.
- Y cysyniad o wneud brechlyn yn ofynnol i staff gofal iechyd sy'n dod i gysylltiad â chleifion, a'i effaith ar gyfyngu trosglwyddiad a **phetruster brechu**.
- **Rhwystrau i dderbyn brechlyn**, gan gwmpasu materion yn ymwneud â hyder mewn brechlynnau, hygyrchedd ac ymatebion y llywodraeth i anghydraddoldebau o ran pwy sy'n manteisio ar y brechlyn.
- **Pryderon ynghylch diogelwch** brechlynnau, gan gynnwys systemau gwyliadwriaeth ôl-farchnata, megis y system monitro ac adrodd Cerdyn Melyn a chydberthynas bosibl rhwng brechlynnau Covid-19 a phroblemau cardiofasgwlaidd.
- Yr angen am ddiwygiadau i **Gynllun Taliad Niwed trwy Frechiad y DU**

Darperir manylion pellach yn y **cwmpas amodol** ar gyfer Modiwl 4.

## Gwrandawiad cyhoeddus rhagarweiniol

Cynhaliodd yr Ymchwiliad y **gwrandawiad rhagarweiniol cyntaf ar gyfer Modiwl 4** ar **13 Medi 2023**. Mae ail wrandawiad rhagarweiniol wedi'i drefnu ar gyfer **22 Mai 2024**. Cyhoeddodd y Farwnes Hallett ei **Dyfarniad yn dilyn y Gwrandawiad Rhagarweiniol Modiwl 4 Cyntaf ar 13 Medi 2023.**

Yn y gwrandawiad rhagarweiniol, amlinellodd Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru dri maes allweddol o bryder. Yn gyntaf, maent yn trafod cwmpas yr ymchwiliad, gan nodi boddhad ar y cyfan ond gan dynnu sylw at bryderon penodol megis **blaenoriaethu brechlynnau** a **gwahaniaethau rhanbarthol yn y broses gyflwyno**. Maent yn pwysleisio pwysigrwydd craffu ar benderfyniadau a mynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan **boblogaethau agored i niwed**.

Yn ail, maent yn sôn am yr angen i graffu ar benderfyniadau ynghylch **cyffuriau gwrthfeirol a mynediad at therapiwteg**.

Yn drydydd, maent yn eirioli dros gynnwys materion yn ymwneud â **brechlynnau gorfodol a Covid-19 a gafwyd yn yr ysbyty** yng nghwmpas yr ymchwiliad, gan ganolbwyntio'n arbennig ar wahaniaethau rhwng polisïau Cymru a gwledydd eraill y DU.

**Cyflwyniadau ysgrifenedig**:

**Llywodraeth Cymru - Modiwl 4 - Cyflwyniadau Ysgrifenedig - 04 Medi 2023 - Ymchwiliad Covid-19 y DU**

**Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru - Modiwl 4 - Cyflwyniadau Ysgrifenedig - 05 Medi 2023 - Ymchwiliad Covid-19 y DU**

**Darllen pellach:**

Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru, **Crynodeb Cyflym o Dystiolaeth** (Mehefin 2021)

Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd, **Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru Adroddiad 1**, Gorffennaf 2020

# Modiwl 5 – Caffael

**Agorodd Modiwl 5 (Caffael) ar 24 Hydref 2023**. Mae'r ffenestr ar gyfer ymgeisio i fod yn Gyfranogwr Craidd bellach wedi cau. Mae **rhestr o Gyfranogwyr Craidd Modiwl 5** ar gael ac yn cynnwys: Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru (CBFJ Cymru), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) a Llywodraeth Cymru. Y cynlluniau presennol yw bod disgwyl i Fodiwl 5 o **3 Mawrth 2025**.

Bydd Modiwl 5 yn canolbwyntio ar werthuso a darparu argymhellion ynghylch **caffael a dosbarthu offer a chyflenwadau gofal iechyd hanfodol,** megis Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), peiriannau anadlu ac ocsigen, ar draws pedair gwlad y DU. Yn benodol, bydd y modiwl yn:

- Asesu effeithiolrwydd a gwydnwch **prosesau caffael a darpariaethau contractiol** ar gyfer caffael offer a chyflenwadau gofal iechyd hanfodol cyn ac yn ystod y pandemig.
- Ymchwilio i unrhyw **addasiadau a wnaed** i weithdrefnau caffael yn ystod y pandemig ac addasiadau dilynol.
- Gwerthuso **digonolrwydd yr eitemau a gaffaelwyd**, gan gynnwys manylebau, ansawdd a nifer yr eitemau a gaffaelwyd, yn ogystal ag **effeithlonrwydd eu dosbarthiad** i ddefnyddwyr terfynol.
- Adolygu **prosesau ledled y DU o gaffael** profion llif ochrol a phrofion PCR.
- Dadansoddi presenoldeb ac effeithiolrwydd gweithdrefnau, prosesau a sianeli cyfathrebu ymhlith cyrff perthnasol **ar draws y pedair gwlad** ynghylch gweithgareddau caffael a defnyddio trefniadau cydgymorth yn ystod y pandemig.

Darperir manylion pellach yn yr **amlinelliad dros dro o'r cwmpas**.

## Gwrandawiad cyhoeddus rhagarweiniol

Cynhaliodd yr Ymchwiliad y **gwrandawiad rhagarweiniol cyntaf ar gyfer Modiwl 5** ar 6 Chwefror 2024.

Cadarnhaodd y cwnsler arweiniol ar gyfer Modiwl 5, Richard Wald CB, fod yr Ymchwiliad yn **ymchwilio i bryderon** yn ymwneud â chaffael PPE yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys archwilio anghydfodau ynghylch contractau a ddyfarnwyd, achosion posibl o dwyll, chwyddiant prisiau ac ansawdd y PPE a gaffaelwyd.

Cododd **Ffederasiwn Sefydliadau Gofal Iechyd Lleiafrifoedd Ethnig (FMHO) bryderon** am **anghydraddoldebau strwythurol mewn caffael**, yn enwedig o ran yr effaith ar weithwyr gofal iechyd a chymunedau ethnig leiafrifol. Mae hyn yn cynnwys ystyriaethau o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a digonolrwydd PPE ar gyfer grwpiau lleiafrifol.

Roedd **pryderon rhagarweiniol a godwyd gan Gyfranogwyr Craidd** yn cynnwys sut y gallai penderfyniadau caffael fod wedi **effeithio ar nifer y marwolaethau a marwolaethau y gellid bod wedi'u hosgoi**, gan ymestyn y tu hwnt i ddefnyddwyr terfynol i gleifion a phreswylwyr cartrefi gofal. Maent yn dadlau bod rhaid i'r Ymchwiliad asesu **dylanwad caffael ar gyfraddau marwolaethau** a nodi marwolaethau y gellid bod wedi'u hatal.

Tynnodd **Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru** sylw at faterion yn ymwneud yn benodol â phenderfyniadau caffael a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Mae'r pryderon yn cynnwys effeithiolrwydd ac ansawdd yr eitemau a gaffaelwyd, tryloywder, gwahaniaethau o ran dulliau gweithredu yng Nghymru ac argaeledd cyfarpar diogelu anadlol (RPE) a PPE priodol. Mae'r grŵp wedi galw am ymchwil wedi'i thargedu a chynnwys cynulleidfaoedd blaenoriaeth o bob gwlad er mwyn eu deall **effaith penderfyniadau caffael** yn llawn.

Dywedodd y grŵp hefyd y dylent gael eu gwahodd i ddarparu tystiolaeth ynghylch **methiannau systemig o ran caffael** yng Nghymru. Maent yn dweud y gall eu profiadau daflu goleuni ar brinder adnoddau mewn ysbytai a chartrefi gofal a chyfrannu at ddealltwriaeth yr Ymchwiliad o effaith penderfyniadau caffael.

**Cyflwyniadau ysgrifenedig**:

**Cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 30 Ionawr 2024 - Ymchwiliad Covid-19 y DU**

**Cyflwyniad gan Covid-19 Bereaved Families for Justice Cymru, dyddiedig 2 Chwefror 2024 - Ymchwiliad Covid-19 y DU**

**Darllen pellach**:

Archwilio Cymru, **Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19** (Ebrill 2021)

Archwilio Cymru, **Caffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol yn ystod pandemig COVID-19, Sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol** (Rhagfyr 2020)

Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd, **Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru Adroddiad 1,** (Gorffennaf 2020)

Llywodraeth Cymru, **Llythyr i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd ynghylch Caffael PPE** (Awst 2020)

Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **UK Government procurement** a **Supply of PPE in England** (Tachwedd 2020)

# Modiwl 6 – Sector Gofal (oedolion)

**Agorodd Modiwl 6 (Sector Gofal) ar 12 Rhagfyr 2023.** Caeodd y ffenestr i ymgeisio i fod yn Gyfranogwr Craidd ar 19 Ionawr 2024. Nid oes rhestr o gyfranogwyr wedi'i chyhoeddi ac nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer gwrandawiadau cyhoeddus Modiwl 6. Cynhelir y gwrandawiad rhagarweiniol cyntaf ar 19 Mawrth 2024.

Bydd Modiwl 6 yn ymchwilio i effaith y pandemig **ar y sector gofal cymdeithasol oedolion ledled y DU**, gan gwmpasu gofal cymdeithasol oedolion a ariennir yn gyhoeddus ac yn breifat. Bydd yn ymchwilio i wahanol agweddau, gan gynnwys:

- **Canlyniadau penderfyniadau'r Llywodraeth ar unigolion o fewn y sector gofal**, gan gynnwys cartrefi preswyl a gofal i oedolion (ac eithrio canolfannau gofal dydd neu dai â chymorth), a'r effaith ar **ofalwyr di-dâl**.
- Penderfyniadau i greu capasiti mewn ysbytai drwy drosglwyddo cleifion i gartrefi preswyl a gofal i oedolion yn **nyddiau cynnar y pandemig**.
- Mesurau a gymerwyd mewn cartrefi preswyl a gofal i oedolion i **liniaru lledaeniad Covid-19,** megis atal heintiau, profi, argaeledd ac addasrwydd PPE a chyfyngiadau ar fynediad ac ymweliadau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- **Ymateb y sector gofal oedolion i'r pandemig**, gan gynnwys ei strwythur, lefelau staffio, nifer y gwelyau a chyfundrefnau arolygu rheoleiddiol.
- **Protocolau cyfathrebu** gyda phreswylwyr a'u teuluoedd ynghylch triniaeth, gan gynnwys trafodaethau a phenderfyniadau ar ddatganiadau **Na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPRs).**
- **Marwolaethau** sy'n gysylltiedig â haint Covid-19, gan gwmpasu preswylwyr a staff.

Nod y modiwl yw asesu **effaith** y pandemig ar breswylwyr, eu teuluoedd, a staff y sector gofal, gyda manylion pellach wedi'u hamlinellu yn yr **amlinelliad dros dro o gwmpas Modiwl 6**.

## Gwrandawiad cyhoeddus rhagarweiniol

Mae'r Ymchwiliad yn bwriadu cynnal **gwrandawiadau rhagarweiniol** ar gyfer Modiwl 6 yn gynnar yn 2024.

**Darllen pellach**:

Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd, **Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 1** (Gorffennaf 2020)

Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd, **Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 3 – Effaith ar y sector gofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl** (Mawrth 2021)

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, **Datganiad ar y cyd â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru**, (Gorffennaf 2020)

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, **Cydraddoldeb a hawliau dynol mewn gofal preswyl yng Nghymru yn ystod coronafeirws (20 Hydref 2020) (live.com)** (Hydref 2020)

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, **Adroddiad Lleisiau Cartrefi Gofal**

Llywodraeth Cymru, **Y Grŵp Cynghori Technegol: meini prawf profi ar gyfer rhyddhau cleifion heb symptomau i gartrefi gofal** (Awst 2020)

Wythnos Gofalwyr, **carers-week-2021-research-report.**

Canolfan Llywodraethiant Cymru, **Angen diwygio'r sector gofal ar gyfer pobol hŷn a'i ariannu'n well yn ôl adroddiad - Newyddion - Prifysgol Caerdydd** (Awst 2020)

| Amserlen | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***Sefydlwyd Ymchwiliad y DU ar 12 Mai 2021** | | | | |
| **Ionawr** | | | | | |
| **Chwefror** | | Modiwl 3 Gwrandawiad rhagarweiniol | **Modiwl 2B Cymru Gwrandawiad cyhoeddus**<br>Modiwl 5 Gwrandawiad rhagarweiniol | | |
| **Mawrth** | | Modiwl 2 Gwrandawiad rhagarweiniol<br>**Modiwl 2B Cymru Gwrandawiad rhagarweiniol** | **Modiwl 2B Cymru Gwrandawiad cyhoeddus** | | |
| **Ebrill** | | | Modiwl 3 Gwrandawiad rhagarweiniol | | |
| **Mai** | | | **Modiwl 4 Brechlynnau a Therapiwteg yn agor** | | |
| **Mehefin** | | Modiwl 1 Gwrandawiadau cyhoeddus<br>Modiwl 2 Gwrandawiad rhagarweiniol | Disgwylir Adroddiad Modiwl 1 ddechrau'r haf | | |
| **Gorffennaf** | Modiwl 1 Gwydnwch a Pharodrwydd yn agor | Modiwl 1 Gwrandawiadau cyhoeddus | | | |
| **Awst** | Modiwl 2 Gwneud penderfyniadau craidd y DU yn agor | | | | |
| **Medi** | | Modiwl 3 Gwrandawiad rhagarweiniol<br>**Modiwl 4 Brechlynnau a Therapiwteg yn agor** | | | |
| **Hydref** | Modiwl 1 Gwrandawiad rhagarweiniol<br>Modiwl 2 Gwrandawiad rhagarweiniol | Modiwl 2 Gwrandawiadau cyhoeddus<br>Modiwl 5 Caffael yn agor | | | |
| **Tachwedd** | Modiwl 3 Gofal Iechyd yn agor<br>**Modiwl 2B Cymru Gwrandawiad rhagarweiniol** | Modiwl 2 Gwrandawiadau cyhoeddus | | | |
| **Rhagfyr** | | Modiwl 2 Gwrandawiadau cyhoeddus<br>**Modiwl 2B Cymru Gwrandawiad rhagarweiniol**<br>Modiwl 6 Sector Gofal yn agor | | | |